


## Trafod teimladau

Mae dysgu eich plentyn i ddeall teimladau yn bwysig er mwyn ei helpu i wneud synnwyr o ddigwyddiadau.



Dyma awgrymiadau...



Enwi teimladau



Gwneud Map Meddwl



Defnyddio cymeriadau a lluniau



Dychmygu




Cyfathrebu a Rhyngweithio / Communication and Interaction



## Enwi teimladau

Defnyddiwch luniau i helpu eich plentyn adnabod ac enwi teimladau. Gofynnwch e.e.

- Sut wyneb ydi hwn?
- Dangos wyneb ofnus i mi.
- Ferdi di wneud wyneb blin?



Blin



Trist



Hapus



Wedi cyffroi



Ofnus




Wedi cael sioc


## Gwneud Map Meddwl

Gwnewch fapiau meddwl efo'ch plentyn i'w helpu ddeall beth ydi ystyr gwahanol deimladau.

Rhowch enghraifft o beth sy'n eich gwneud chi'n hapus.



Meddyliwch am enghraifft o beth sy'n gwneud eich plentyn yn hapus.



Defnyddiwch enghreifftiau mewn llyfrau straeon.



Disgrifiwch beth sy'n digwydd i'ch corff / wyneb pan ydych chi'n hapus.

## Defnyddio cymeriadau a lluniau



Weithiau gall defnyddio lluniau a chymeriadau (e.e. pyped) i ddweud stori helpu eich plentyn i ddeall a thrafod teimladau.



### 1. Dangoswch a thrafodwch lun:

- **Pwy** sydd yn y llun?
- Beth mae'r gath yn ei **wneud**?
- **Ble** mae'r gath?



Mae cath yn cuddio yn y gwely.

### 2. Trafodwch sut y byddai Titw Tomos Las yn teimlo ar ôl gweld cath yn cuddio yn ei wely.




Mae Titw wedi cael sioc.


### 3. Dywedwch y stori mewn pedwar cam syml. Gwnewch luniau.




Dyma Titw Tomos Las.



Mae'n amser gwely Titw Tomos Las.



Mae cath yn cuddio yng ngwely Titw Tomos Las.



Mae Titw Tomos Las wedi cael sioc.

## Defnyddio dychmyg

Mae dychmygu yn gallu bod yn anodd, felly rhowch ddigon o syniadau i'ch plentyn.



Pam wyt ti yn fy ngwely?

Rydw i eisiau cynhesu!

Helpwch eich plentyn i geisio dychmygu beth fyddai cymeriadau'r stori'n ei ddweud wrth ei gilydd.  
Rhowch enghreifftiau.



Helpwch eich plentyn i geisio dychmygu beth arall fyddai'n gallu rhoi sioc i Titw Tomos Las. Rhowch enghreifftiau.




Dyma Titw Tomos Las.



Mae'n amser gwely Titw Tomos Las.

?



Mae Titw Tomos Las wedi cael sioc.

